Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL DYFED POWYS
DYFED POWYS CRIMINAL JUSTICE BOARD

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

# TROSOLWG O GYNLLUN CYFLENWI 2025-2029 BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL LLEOL DYFED-POWYS

## ‘PLANT A PHOBL IFAINC’ A ‘MYND I’R AFAEL Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL' YW’R DDAU LINYN AUR AR DRAWS POB BLAENORIAETH

### Blaenoriaeth 1 – Dioddefwyr a Thystion

1. Cydymffurfiaeth â’r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr – goruchwylio pa mor dda mae’r System Cyfiawnder Troseddol yn bodloni anghenion dioddefwyr.
    - Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn derbyn meysydd pryder/dwysáu
    - Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn derbyn uchafbwyntiau o arolygon profiad tystion ac adborth llais dioddefwyr – beth sy’n gweithio a materion a godwyd am y system gyfiawnder

2. Bydd dioddefwyr cam-drin domestig yn derbyn gwell cymorth fel rhan o’r ymagwedd newydd sy’n cael ei dreialu yn y llysoedd teulu.
    - Bydd cynllun peilot braenaru’n cael ei fonitro er mwyn sicrhau gwell profiad o lysoedd teulu ar gyfer dioddefwyr a phlant

3. Parhau i ddod ynghyd â darlun o berfformiad cyfiawnder troseddol ar gyfer dioddefwyr trais ledled Cymru
    - Monitro’r niferoedd sy’n manteisio ar Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a chyfarfodydd cyn treial ac effaith ymgysylltiad dioddefwyr â nhw

### Blaenoriaeth 2 – Pobl sy’n troseddu

1. Gweithgareddau Dargyfeirio Tu Allan i’r Llys - Monitro
    - Cynllun dargyfeirio troseddwyr
    - Dargyfeirio rhag cyffuriau
    - Profi am gyffuriau adeg arést ac ymyriadau dalfa

2. Deall anghenion troseddegol ein carfannau a mynd i’r afael â nhw
    - Dadansoddi data ymhellach
    - Dadansoddi aildroseddu yn y garfan anghenion cymhleth
    - Parhau i gyflwyno nalocson ar draws Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid
    - Gwella llety ar gyfer troseddwyr, fel y nodwyd gan anghenion troseddegol ein holl garfannau

3. Rheoli troseddwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn well
    - Cyflwyno proses Gorchwyl a Chydlynu Amlasiantaeth – asesu risg a rheoli troseddwyr
    - Monitro gweithredu a defnyddio’r rhaglen CARA (Rhybuddio a Cham-drin Perthynas) ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig
    - Monitro perfformiad y rhaglen troseddwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ranbarthol ac ystyried yr ymyriadau sydd angen ar gyfer troseddwyr trais rhywiol

4. Gwneud Iawn â’r Gymuned
    - Datblygu strategaeth gyfathrebu a rennir i hyrwyddo’r cynlluniau

5. Cyfiawnder Adferol
    - Sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at Gyfiawnder Adferol ym mhob cam o’r system cyfiawnder troseddol (yn unol â’r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr)

6. Cefnogi gwaith y Glasbrint Cyfiawnder Menywod

### Gwrth-hilioldeb

Wedi’i gynnwys fel ymrwymiad cyffredinol gan holl aelodau’r Bwrdd a bydd yn cael ei blethu i mewn i’r HOLL waith rydyn ni’n ei wneud